# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(65)

**Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro**

Cafodd Angela Burns ei hethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Dechreuodd yr eitem am 14:17.

Gofynnwyd cwestiynau 1-3 a 5-8. Cafodd cwestiwn 4 ei dynnu yn ôl.

**3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 22.9**

Dechreuodd yr eitem am 15:01.

**NDM4985 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-12 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Mai 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid ceryddu Keith Davies AC.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)**

Dechreuodd yr eitem am 15:06.

**NDM4984 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

Gosodwyd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 30 Ionawr 2012.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) gerbron y Cynulliad ar 4 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau Meddygol) (Mick Antoniw)**

Dechreuodd yr eitem am 16:06.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Canlyniad y bleidlais:

**NDM4955 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mick Antoniw gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ddydd Gwener 16 Mawrth o dan Reol Sefydlog 26.90.

Mae'r wybodaeth cyn y balot ar gael drwy fynd i:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_040.htm

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16:41.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4986 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y sialensiau sy’n wynebu’r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth a’u gwerth i economi Cymru;

2. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflawni polisïau costeffeithiol i gefnogi’r diwydiannau gwledig hyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymgysylltu’n adeiladol â rhanddeiliaid y diwydiant;

b) gwella tryloywder ei pholisïau; ac

c) sicrhau bod ei pholisïau’n cyflawni gwerth am arian ac nad ydynt yn tanseilio swyddi gwledig yn y sector preifat.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 32 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

sicrhau bod y sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y lefel uchaf mewn unrhyw un corff amgylcheddol newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw gweithredu'r cynllun Glastir wedi adlewyrchu pryderon y sector coedwigaeth yn ddigonol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 10 | 27 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4986 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y sialensiau sy'n wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth a'u gwerth i economi Cymru;

2. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflawni polisïau costeffeithiol i gefnogi'r diwydiannau gwledig hyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid y diwydiant;

b) gwella tryloywder ei pholisïau;

c) sicrhau bod ei pholisïau'n cyflawni gwerth am arian ac nad ydynt yn tanseilio swyddi gwledig yn y sector preifat; a

d) sicrhau bod y sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y lefel uchaf mewn unrhyw un corff amgylcheddol newydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi'i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17:33.

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17:37.

**NDM4987 Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Tîm Prydain Fawr: Cyfle Euraid.

Â’r Gemau Olympaidd yn cael eu cynnal ar yr ynysoedd hyn dros yr haf, mae’r ddadl fer hon yn ceisio cyflwyno’r ddadl chwaraeon, economaidd a diwylliannol o blaid caniatáu i bêl-droedwyr o Gymru gael bod yn rhan o Garfan Bêl-droed Tîm Prydain Fawr am y tro hwn yn unig.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:58

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 22 Mai 2012**